PWYLLGOR PENODI - PENNAETH PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU
DYDD LLUN, 1 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Boyle, Walker a/ac Weaver |

## 9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Bowen-Thomson.

## 10 : DATGANIADAU BUDDIANNAU (OS OES RHAI)

Ni chafwyd datganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

## 11 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

## 12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 18 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

## 13 : GWAHARDD Y CYHOEDD.

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw rhywun.

## 14 : PENODI PENNAETH GWASANAETH, PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU.

Cafodd Pwyllgor Penodi'r swydd Pennaeth Gwasanaeth, Perfformiad a Phartneriaethau ailgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu. Roedd gan y Pwyllgor bum Adroddiad Asesiad i'w hadolygu.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor gais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut sgoriodd pob ymgeisydd yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a'r asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Ystyriodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno dau ymgeisydd am gyfweliad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau pwnc cyflwyno gan osod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD –

1. Gwahodd ymgeiswyr 10 ac 11 am gyfweliad;

2. rhoi gwybod i'r ymgeiswyr beth fydd testun y cyflwyniad ac y caiff uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw;

3. llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MAWRTH 16 EBRILL 2019

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm*